

## City & Guilds NVQ Certificate in Hospitality Services Level 1



### Yn gwyno

Byddwch yn gweithio yng ngheginau a bwytai'r coleg ac yn cael eich hyfforddi at safon diwydiant, yn paratoi prydau ac yn gweini ar y cyhoedd yn ddyddiol

### Dyma'r cwrs i chi os...

- ... Rydych yn gweithio'n dda dan bwysau
- ... Rydych yn ffynnu mewn amgylchedd lle mae plesio'r cwsmer yn flaenoriaeth
- ... Mae gennych ddiddordeb brwd mewn lletygarwch

### Beth fyddaf yn ei wneud?

Mae'r diwydiant lletygarwch ac arlwyyo yn ddiwydiant sy'n tyfu'n gyflym ac yn yrfa heriol, ond hynod gwerth chweil.



## TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Mae ein tiwtoriaid i gyd yn gymwys ac yn brofiadol tu hwnt yn eu maes, a byddant yn cynnig y sgiliau sydd eu hangen arnoch chi er mwyn datblygu i gwrs Coginio Proffesiynol Lefel 2.

Mae'r cwrs yn mynd i'r afael â'r holl gyfrifoldebau sylfaenol, o gynnal gweithle diogel i baratoi a gweini bwyd a diod.

Mae'r unedau rydym yn mynd i'r afael â nhw yn cynnwys:

Cynnal amgylchedd gweithio diogel a hylan  
Cyfrannu at weithio fel tîm yn effeithiol  
Cynnal diogelwch bwyd wrth storio, paratoi a choginio bwyd  
Paratoi llyisiau  
Coginio llyisiau  
Paratoi a choginio cig a dofednod  
Paratoi a choginio pasta  
Paratoi a choginio reis  
Coginio a gorffen cynnyrch bara a toes syml

Byddwch yn cael eich asesu drwy aseiniadau ymarferol ac ysgrifenedig, portffolios, cyflwyniadau ac arddangosiadau, a byddwch yn ennill:

Tystysgrif NVQ 1 mewn Paratoi a Choginio Bwyd a Thystysgrif NVQ 1 mewn Gwasanaeth Bwyd a Diod, yn ogystal â:

[Gweithgareddau Sgiliau](#)

[Mathemateg a Saesneg](#) (os nad oes gennych chi Radd C neu uwch ar lefel TGAU)  
Cymwysterau perthnasol eraill i gyfoethogi eich set sgiliau

### **Beth a ddisgwylir ohonof i?**

Nid oes gofynion mynediad ffurfiol ar gyfer y cwrs, ond mae'n rhaid ichi ddangos brwdfrydedd am y diwydiant lletygarwch ac arlwy. Byddwch angen bod yn berson sy'n gallu cymell ei hun, gweithio'n galed, yn rhifog ac â phersonoliaeth gyfeillgar. Mae presenoldeb a phrydlondeb ym mhob sesiwn yn un o brif ofynion y cwrs.

### **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Apply online at [www.coleggwent.ac.uk](http://www.coleggwent.ac.uk)

[studentrecruitment@coleggwent.ac.uk](mailto:studentrecruitment@coleggwent.ac.uk) | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)





## TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Diploma Level 1 mewn Coginio Proffesiynol, NVQs yn y Gweithle yn y meysydd coginio a gwasanaeth bwyd a diod.

### Gwybodaeth Ychwanegol

Byddwch angen prynu gwisg cogydd a gwisg y bwyty ynghyd ag offer/llyfr a manion a fydd â chost o tua £290.00.

Apply online at [www.coleggwent.ac.uk](http://www.coleggwent.ac.uk)

[studentrecruitment@coleggwent.ac.uk](mailto:studentrecruitment@coleggwent.ac.uk) | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

